

Mae pobl wedi'u creu ar lun a delw Duw. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu denu at bobl o'r rhyw arall. Mae tua 10% o bobl yn cael eu denu at bobl o'r un rhyw â nhw. Dyna sy'n naturiol iddyn nhw.

Mae llawer o bobl hoyw yn syrthio mewn cariad ac yn dymuno treulio gweddill eu bywyd gyda'u cariad. Erbyn hyn, mae modd i bobl hoyw briodi. Mae rhai pobl hoyw'n Gristnogion ac yn dymuno priodi mewn capel gan wneud eu haddewidion gerbron Duw.

Mae gofyn i eglwysi'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr benderfynu a ydynt am ganiatáu i bobl hoyw briodi yn eu hadeiladau. Os penderfynwn o blaid derbyn pobl hoyw i briodi ym Maesyneuadd, mae'n eithaf posib na fydd hynny'n digwydd byth. Ychydig o briodasau sy'n cael eu cynnal yma beth bynnag. Byddai'n rhaid bod cwpwl yn awyddus iawn i gael priodas Gristnogol cyn dewis festri fach, ddi-nod heb le i barcio na thynnu lluniau!

Ond mae'r egwyddor o fod yn eglwys agored a chroesawus yn hollbwysig.

Mathew 7: 12 Dylech chi bob amser drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw eich trin chi. Mae'n egwyddor sy'n crynhoi popeth mae Cyfraith Moses ac ysgrifau'r proffwydi'n ei ddweud.

Mae rhai pobl o'r farn bod y Beibl yn dweud bod rhyw hoyw yn bechod.

Dim ond tua 7 adnod yn y Beibl sy'n sôn am ryw hoyw a **dim un ohonynt yn sôn am berthynas gariadus, wirfoddol, ffyddlon, barhaol.**

- Mae'r cyfeiriad yn Genesis 19 (Lot yn Sodom) yn sôn am drais rhywiol
- Mae'r cyfeiriadau yn Lefiticus yn sôn am ryw hoyw fel rhan o ddefodau i addoli gau-dduwiau a'n dod ynghanol adnodau sy'n gwahardd bwyta porc a phrawns, rheolau am ddillad a thyfu barf. Dydi Cristnogion ddim yn ufuddhau i'r rheolau hynny, felly pam dewis gwrthod rhyw hoyw? Mae Lefiticus 20:13 yn dweud: "Os ydy dyn yn cael rhyw gyda dyn arall, mae'r ddau wedi gwneud peth ffiadd. Y gosb ydy marwolaeth i'r ddau." Ydyn ni am gymryd yr adnod gyfan yn llythrennol?
- Mae'r adnodau yn yr Epistolau yn sôn am filwyr Rhufeinig yn cymryd bechgyn ifanc er mwyn cael pleser rhywiol.

Gan nad yw'r Beibl yn sôn am **berthynas gariadus, ffyddlon** rhwng dau ddyn neu ddwy ddynes, rhaid i ni benderfynu ar sail ein dealltwriaeth ni o'r Beibl.

Mae rhai'n meddwl bod geiriau Iesu yn Marc 10: 6-9 yn awgrymu nad yw o blaid priodas un-rhyw: *"Pan greodd Duw bopeth ar y dechrau cyntaf, gwnaeth pobl 'yn wryw ac yn fenyw'. 'Felly bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam, ac yn cael ei uno â'i wraig, a bydd y ddau yn dod yn un.' Dim dau berson ar wahân ydyn nhw wedyn, ond uned. Felly ddylai neb wahanu beth mae Duw wedi ei uno!"*

Hyd y gwelaf i, nid yw hyn yn gwahardd priodasau un-rhyw. Mae Iesu'n dweud mor bwysig yw'r uned deuluol. Yr hyn y mae pobl hoyw'n dymuno'i wneud trwy briodi yw sefydlu uned deuluol yn union fel pobl eraill.

Os oes gennych gwestiwn am y mater neu os hoffech ei drafod, mae croeso i chi gysylltu â mi - yn hollol gyfrinachol. Mae gen i nifer o erthyglau ar y mater y cewch eu darllen os dymunwch. Rwy'n gobeithio y gwnaiff pawb ei ystyried yn bwyllog ac yn weddigar.

**Siân, Tir Du
01286 660340
sian.roberts@btinternet.com**

- Mae rhai'n dweud na ddylem dderbyn pobl hoyw i'w priodi am nad yw'n rhan o draddodiad yr eglwys Gristnogol. Ond mae rhannau o'r eglwys wedi cyfiawnhau, ar sail y Beibl, rhyfela, caethwasiaeth, y gosb eithaf a rhoi lle israddol i fenywod. Mae'n dealltwriaeth ni o'r Beibl yn datblygu.
- Roedd y syniad o berthynas hoyw gariadus yn ddiarth yn nyddiau'r Beibl.
- Nid "pechod" fel bod yn farus, hunanol, maleisus, cenfigennu, llofruddio, cecru, twyllo, bod yn sbeitlyd a hel straeon am bobl eraill ... enllibio pobl, casáu Duw, bod yn haerllug, yn snobyddlyd ..." (Rhuf 1) yw bod yn hoyw. Mae'n rhan o wead pobl. Wrth gwrs, gall pobl hoyw ymddwyn yn anfoesol fel pawb arall ond dydi dymuno treulio gweddill eich bywyd gyda'r un rydych yn ei garu ddim yn bechod.

Mathew 22: 37-40 Atebodd Iesu: "Rwyf i garu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid a'th holl feddwl." Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysica. Ond mae yna ail un sydd yr un fath: 'Rwyf i garu dy gymydog fel rwyf ti'n dy garu dy hun.' Mae'r cwbl sydd yn y Gyfraith a'r Proffwydi yn dibynnu ar y ddau orchymyn yma."

- Nid rhyw "deip" o bobl yw pobl hoyw. Maen nhw'n bobl gyffredin o bob lliw a llun – jest fel chi a fi.
- Mae Duw wedi creu pobl yn hoyw. Pwy ydyn ni i wrthod breintiau a chysur ei Eglwys iddynt?
- Mae pobl hoyw yn frodyr ac yn chwiorydd i ni. Mae'n iawn iddyn nhw gael mwynhau holl freintiau'r Eglwys a pheidio â chael eu trin fel pobl eilradd.
- Mae rhai pobl yn teimlo'n anghyfforddus wrth feddwl am berthynas hoyw ond dydi hynny ddim yn rheswm dros wrthod y cyfle i bobl hoyw fwynhau breintiau'r Eglwys.
- Mae llawer o bobl hoyw'n Gristnogion ac yn dymuno bendith Duw ar eu perthynas. Pwy ydyn ni i wrthod hynny iddynt?

Philipiaid 1:2: Dw i'n gweddio y byddwch chi'n profi'r haelioni rhyfeddol a'r heddwch dwfn mae Duw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist yn ei roi i ni.

Rhai rhesymau dros gefnogi priodasau un-rhyw